**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Ceredigion**
**Public Services Board**

Caru·Love Ceredigion

<table>
<tr><th>Eitem / Item</th><th colspan="2">Dyddiad / Date</th></tr>
<tr><td>38.3</td><td colspan="2">4.3.24</td></tr>
<tr><th colspan="2">Teitl / Title</th><th>Er / For</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28: Fframwaith Cyflawni</td><td>Trafodaeth a Chytundeb</td></tr>
<tr><th colspan="3">Crynodeb o’r Materion / Summary of Issues</th></tr>
<tr><td colspan="3">
Yn y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2023, cyflwynwyd y casgliadau a'r cynigion a chafwyd o ganlyniad i gyfres o weithdai a gynhaliwyd i flaenoriaethu ein blaenoriaethau Llesiant tymor canolig.
Ynghyd â'r blaenoriaethau, cynigiwyd a derbyniwyd sawl argymhelliad yn seiliedig ar adborth o'r gweithdai, a oedd yn amlinellu mesurau y byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu mabwysiadu i gyfoethogi’r gwaith cyflawni. Yn gryno, y rhain oedd:
• Cyfathrebu a Marchnata – Byddai ffocws cryfach ar hyn yn helpu codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o'r ystod eang o fentrau sy’n cael eu cynnal.
• Y dylanwad cadarnhaol a welir pan fod cynrychiolwyr Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd yr is-grwpiau cyflawni. Mae’r Rhwydwaith bellach yn mynychu pob cyfarfod is-grŵp.
• Cyfarfodydd BGC chwarterol i gynnwys 'Sesiynau Sbotolau' sy'n ffocysu’n ar Amcan penodol o’r Cynllun Llesiant.
• Strwythur – Cytunodd y Bwrdd barhau â’r tri phrif is-grŵp am y tro, gyda’r trefniadau i gael eu hadolygu’n flynyddol.
• Adolygu Cylch Gorchwyl ac aelodaeth yr is-grwpiau i adlewyrchu’r blaenoriaethau newydd.
• Bydd y BGC yn ymdrechu i drosoli'r defnydd o feddalwedd a thechnoleg ryngweithiol ar draws cyfarfodydd a gweithdai.
• Byddwn yn archwilio'r syniad o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ieuenctid, neu'n cryfhau ymgysylltiad â phobl ifanc ymhellach.
Mae'r egwyddorion uchod wedi'u hymgorffori ac yn rhan o'r strategaeth gyflawni y manylir arni yn y Cynllun drafft.
Mae'r Cynllun Cyflawni drafft atodedig yn manylu ar y dull a gynigir i alluogi allbwn yn y meysydd blaenoriaeth hyn, manylion y trefniadau llywodraethu, strwythur ac adrodd.
</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Mae hefyd yn cynnwys traciwr gweithredu a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd, fel y gellir amlygu ac archwilio camau penodol sy'n ymwneud â chyflawni'r blaenoriaethau. |
| Goblygiadau Ariannol / Financial Implications |
| / |
| Argymhellion / Recommendations |
| Bod y Cynllun Cyflawni drafft hwn yn cael ei fabwysiadu a'i adolygu mewn 2 flynedd, a bod y strwythur cyflawni yn destun adolygiad blynyddol. |
| Atodiadau / Attachments |
| 38.3 Cynllun Cyflawni Blaenoriaeth Llesiant BGC |
| Swyddog Adrodd / Reporting Officer |
| Timothy Bray |